

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)**

Brynhawn Mawrth 8fed Medi, 2015 am 2pm

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm 4ydd Medi 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CLUDO DISGYBLION YSGOL: CYNNAL Y GWASANAETH PRESENNOL OND LLEIHAU'R CYMHORTHDAL AR GYFER ELFENNAU DEWISOL Y DDARPARIAETH – CANLYNIAD YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR BOLISI NEWYDD ARFAETHEDIG.

Derbyn adroddiad ar y cyd gan y Prifweithredwr, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi canlyniad y cyfnod ymgynghori ynghyd â gwybodaeth

ychwanegol i Aelodau o'r Cabinet i'w hystyried mewn perthynas â 'r polisi newydd arfaethedig ar gludo disgyblion.

Tudalennau 1 - 512

3 Materion brys

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Llewelyn Iwan', is written over a faint, large watermark of the Welsh flag (Y Ddraig Goch) in the background.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet